

Y Gwasanaeth Meddygon a Benodwyd i Roi Ail Farn – Y Fethodoleg Bresennol ar gyfer Asesiadau Meddygon a Benodwyd i Roi Ail Farn – 2026

Canllawiau i wasanaethau iechyd meddwl

Annwyl Gydweithiwr

Mae'r canllawiau yn nodi methodoleg bresennol Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ar gyfer asesiadau Meddygon a Benodwyd i Roi Ail Farn. Maent yn disodli methodoleg dros dro neu ddiwygiedig cynharach a dylid eu darllen fel y canllawiau gweithredol cyfredol i ddarparwyr sy'n cyflwyno ceisiadau am ail farn i AGIC.

Fel arfer, dylai asesiadau gan feddygon a benodwyd i roi ail farn gael eu cynnal drwy ymweliad safle lle bynnag y bo modd, yn bennaf er mwyn hwyluso cyfweiliad uniongyrchol â'r claf. Mae hyn yn cefnogi arferion gorau, yn galluogi'r meddyg a benodwyd i roi ail farn i ymgysylltu'n uniongyrchol â'r claf, ac yn helpu i roi profiad o'r ansawdd gorau i'r claf. Gellir parhau i gynnal ymgynghoriadau proffesiynol, gan gynnwys gyda'r Clinigydd Cyfrifol ac ymgynghoreion statudol, dros y ffôn neu drwy ddull digidol addas lle y bo'n briodol.

Dylai darparwyr hysbysu tîm y Gwasanaeth Adolygu ar gyfer Iechyd Meddwl ar adeg y cais os bydd unrhyw ofynion lleol o ran atal heintiau, mynediad a diogelwch neu unrhyw ofynion eraill sy'n benodol i'r safle a all effeithio ar ymweliad y meddyg a benodwyd i roi ail farn.

Crynodeb o'r weithdrefn bresennol

- Ymweliadau ar y safle gan feddygon a benodwyd i roi ail farn yw'r dull a ddefnyddir ar gyfer ceisiadau am ail farn mewn ysbytai fel arfer, yn bennaf i hwyluso cyfweiliad uniongyrchol â chleifion lle bynnag y bo modd.
- Gellir cynnal ymgynghoriadau proffesiynol, gan gynnwys gyda'r Clinigydd Cyfrifol ac ymgynghoreion statudol, dros y ffôn neu drwy ddull digidol arall addas.
- Rhaid i wasanaethau iechyd meddwl ddarparu crynodeb o broblemau presennol y claf a dogfennaeth ategol wrth gyflwyno cais am ail farn.
- Dylai darparwyr hysbysu AGIC ymlaen llaw os bydd y claf yn nodi'n gryf ac yn barhaus nad yw am gael ei gyfweled gan feddyg a benodwyd i roi ail farn. O dan yr amgylchiadau hyn, efallai y bydd yn briodol ei ardystio o bell heb gwblhau ymweliad ar y safle, yn amodol ar farn broffesiynol y meddyg a benodwyd i roi ail farn.
- Os bydd y claf yn mynegi y byddai'n well ganddo gael ymgynghoriad dros y ffôn neu fideo, gellir darparu ar gyfer hyn lle bo hynny'n briodol yn glinigol ac yn ôl disgrisiwn y meddyg a benodwyd i roi ail farn.
- Ar gyfer achosion Gorchymyn Triniaeth Gymunedol, bydd yr asesiad fel arfer yn cael ei drin fel asesiad o bell oni bai bod y claf yn gofyn yn benodol am gael cyfweiliad wyneb yn wyneb â meddyg a benodwyd i roi ail farn.
- Bydd meddygon a benodwyd i roi ail farn yn parhau i gyhoeddi Ffurflenni Ardystio (CO) electronig, a dylai darparwyr dderbyn copïau electronig a anfonir drwy e-bost a gweithredu arnynt oni bai bod AGIC yn eu hysbysu fel arall.

Cyflwyno cais am ail farn

Wrth gyflwyno cais am ail farn, rhaid i wasanaethau iechyd meddwl roi crynodeb o broblemau presennol y claf i AGIC.

Dylid hefyd anfon y dogfennau isod drwy e-bost diogel, os byddant ar gael:

- Cofnodion dyddiol, lle bo modd.
- Adroddiad diweddaraf y triwlynys a/neu'r rheolwyr, hyd yn oed os cafodd ei lunio cyn i'r claf gael ei dderbyn.
- Copïau wedi'u sganio o siartiau triniaeth cyfredol.
- Prawf o awdurdod i gadw'r claf, fel H014 neu ddogfennaeth gyfatebol.

Gellir e-bostio'r dogfennau hyn yn ddiogel o gyfrif e-bost diogel nhs.net neu gyfrif cyfatebol i: HIW.RSMH@gov.wales

Ymgynghoriadau â gweithwyr proffesiynol

Gellir cynnal ymgynghoriadau â gweithwyr proffesiynol, gan gynnwys y Clinigydd Cyfrifol ac ymgynghoreion statudol, dros y ffôn neu drwy ddull digidol addas. Gall y meddyg a benodwyd i roi ail farn benderfynu pa ddull ymgynghori sy'n briodol, gan ystyried amgylchiadau'r achos, y wybodaeth sydd ei hangen, ac unrhyw ystyriaethau ymarferol neu glinigol.

Cyfweliadau â chleifion

Fel arfer, pan fydd cais am feddyg a benodwyd i roi ail farn mewn ysbyty yn cael ei wneud, bydd angen cynnal ymweliad ar y safle i hwyluso cyfweliad â'r claf lle bynnag y bo modd. Dylai darparwyr wneud y trefniadau angenrheidiol i gefnogi mynediad at feddyg a benodwyd i roi ail farn a sicrhau bod modd cynnal y cyfweliad mewn amgylchedd priodol.

Dylai darparwyr hysbysu AGIC ar adeg y cais os bydd y claf yn nodi'n gryf ac yn barhaus nad yw am gael ei gyfnewid gan feddyg a benodwyd i roi ail farn. Bydd hyn yn helpu AGIC a'r meddyg a benodwyd i roi ail farn i benderfynu a oes angen cynnal ymweliad ar y safle. Os bydd claf yn gwrthod cwrdd â'r meddyg a benodwyd i roi ail farn, mater i'r meddyg hwnnw fydd penderfynu a ddylid bwrw ymlaen â'r ail farn, fel sy'n wir mewn unrhyw achos lle bydd claf yn gwrthod cymryd rhan mewn cyfweliad.

Os bydd claf yn mynegi y byddai'n well ganddo gael ymgynghoriad dros y ffôn neu fideo, gellir darparu ar gyfer hyn lle bo hynny'n briodol yn glinigol ac yn amodol ar farn broffesiynol y meddyg a benodwyd i roi ail farn.

Ar gyfer achosion Gorchymyn Triniaeth Gymunedol, bydd yr achos fel arfer yn cael ei drin fel achos o bell oni bai bod y claf yn gofyn yn benodol am gael cyfweliad wyneb yn wyneb â meddyg a benodwyd i roi ail farn. Os gofynnir am gyfweliad wyneb yn wyneb, bydd AGIC yn ystyried y cais ac yn gwneud trefniadau priodol lle y bo'n ymarferol.

Dylai darparwyr hefyd hysbysu AGIC ar adeg y cais am unrhyw ofynion lleol o ran atal heintiau, mynediad a diogelwch neu unrhyw ofynion eraill sy'n benodol i'r safle a all effeithio ar ymweliad y meddyg a benodwyd i roi ail farn.

Ffurflenni ardystio electronig

Mae AGIC yn cyhoeddi ffurflenni ardystio CO electronig. Dylai darparwyr dderbyn copiâu electronig a anfonir drwy e-bost o dystysgrifau CO a gweithredu arnynt oni bai bod AGIC yn eu hysbysu fel arall.

Rhaid cyhoeddi pob tystysgrif newydd ar ffurflenni CO Cymru. Nid yw ffurflenni T yn gyfreithiol ddilys yng Nghymru ac ni ddylid eu defnyddio ar gyfer ardystiadau newydd.

Canllawiau a gwybodaeth bellach

Dylai darparwyr a chlinigwyr hefyd gyfeirio at y Llawlyfr SOAD, sydd ar gael ar wefan AGIC. Mae'r llawlyfr yn cynnwys canllawiau pellach, adnoddau, cwestiynau cyffredin a gwybodaeth ychwanegol a allai fod yn ddefnyddiol i wasanaethau sy'n ymwneud â gwneud cais am asesiadau gan feddygon a benodwyd i roi ail farn neu eu cefnogi.

Os bydd gennych unrhyw gwestiynau am y broses hon, neu os hoffech awgrymu newidiadau, e-bostiwch: HIW.RSMH@gov.wales

Yn gywir

Rob Jones

Rheolwr y Gwasanaeth Adolygu ar gyfer Iechyd Meddwl
AGIC

Atodiad 1: Achosion brys lle nad oes angen tystysgrifau

Nid yw adrannau 57, 58 a 58A yn gymwys mewn achosion brys lle mae angen triniaeth ar unwaith (adran 62). Yn yr un modd, nid oes angen tystysgrif Rhan 4A mewn achosion brys lle mae angen y driniaeth ar unwaith (adrannau 64B, 64C a 64E).

Dim ond os oes angen y driniaeth dan sylw ar unwaith i wneud y canlynol y mae hyn yn gymwys:

- achub bywyd y claf;
- atal dirywiad difrifol yng nghyflwr y claf, ac na fydd y driniaeth yn arwain at ganlyniadau corfforol neu seicolegol anffafriol na ellir eu gwrthdroi;
- atal y claf rhag dioddef yn ddifrifol, ac na fydd y driniaeth yn arwain at ganlyniadau corfforol neu seicolegol anffafriol na ellir eu gwrthdroi ac na fydd yn achosi perygl corfforol sylweddol; neu
- atal y claf rhag ymddwyn yn dreisgar neu beryglu ei hun neu eraill, lle mae'r driniaeth yn cynnig yr ymyrraeth leiaf posibl sydd ei hangen at y diben hwnnw, na fydd yn arwain at ganlyniadau corfforol neu seicolegol anffafriol na ellir eu gwrthdroi ac na fydd yn achosi perygl corfforol sylweddol.

Os mai ECT yw'r driniaeth, neu feddyginiaeth a roddir fel rhan o ECT, dim ond y ddau gategori cyntaf uchod sy'n gymwys.

Bydd angen i ddarparwyr a chlinigwyr ystyried yr opsiynau statudol sydd ar gael os na fydd meddyg a benodwyd i roi ail farn yn gallu ymweld neu os na fydd hynny'n briodol, a lle bydd yn rhaid parhau â'r driniaeth:

- Os bydd gan y claf eisoes dystysgrif CO ar waith, ond nad yw'r dystysgrif yn awdurdodi triniaeth newydd neu wahanol, gall adran 62(1) fod yn gymwys. Gall fod yn briodol llenwi ffurflen adran 62 a gynhyrchir yn lleol. Fel arfer, ni fydd angen cynhyrchu ffurflen adran 62 newydd ar gyfer pob dos, yn enwedig os bydd y meini prawf angenrheidiol perthnasol yn gymwys o hyd. Dylid adolygu a dogfennu'r angen parhaus yn rheolaidd, er enghraifft yn ystod rowndiau ward, cyfarfodydd y tîm amlddisgyblaethol neu gyfarfodydd adolygu eraill.
- Os na fydd gan y claf dystysgrif CO ond ei fod wedi cyrraedd diwedd y rheol tri mis, gall adran 62(2) fod yn gymwys. Gall hyn olygu y gellir parhau â'r cynllun triniaeth presennol nes y gellir bodloni gofynion y dystysgrif, nes y gall meddyg a benodwyd i roi ail farn adolygu'r driniaeth, neu nes y bydd cyflwr y claf yn gwella fel y gall gydsynio a bod modd cwblhau T2.

Os ystyrir bod adran 62(2) yn gymwys, ni fydd angen ffurflen arbennig. Bydd yn ddigonol i'r Clinigydd Cymeradwy neu'r Clinigydd Cyfrifol gofnodi yn y nodiadau fod y driniaeth yn parhau ar ôl y cyfnod o dri mis o dan adran 62(2), ynghyd â'r cyfiawnhad a'r rheswm pam na ellir bodloni gofynion y dystysgrif eto, gan gynnwys unrhyw argaeled meddyg a benodwyd i roi ail farn neu gyfyngiadau o ran mynediad.

Dylid cynnal adolygiad rheolaidd o'r angen parhaus a'i ddogfennu fel y disgrifiwyd uchod.